**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (5)**

**Dydd Mawrth, 22 Mai 2001**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Ethol Dafydd Wigley i'r Pwyllgor Diwylliant**
*NDM661* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Dafydd Wigley (Plaid Cymru) ar ei Bwyllgor Diwylliant yn lle Gareth Jones (Plaid Cymru).

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad ar Geiswyr Lloches**

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Dadl ar y System Apêlio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr**
*NDM660* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn croesawu'r bwriad i sefydlu System Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr yng Nghymru mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch talu cymorthdaliadau amaethyddol.
2. yn galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i sicrhau bod y system apelio yn gwbl weithredol erbyn 31 Hydref 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru) Peter Rogers (Gogledd Cymru)**
**Ychwanegu trydydd paragraff;**

(3) yn galw ar y Gweinidog i gynnal adolygiad o effeithlonrwydd gweithredol ei Adran a'i

Swyddfeydd Rhanbarthol o ran prosesu ceisiadau, er mwyn lleihau nifer yr achosion posibl sy'n cael eu cyfeirio at y broses apelio

**Eitem 6**
**Dadl ar Adroddiad y Prif Arolygydd ar Hyfforddiant a Datblygiad (Adroddiad ESTYN)**
*NDM662* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol 1999-2000 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2001 ac yn cydnabod bod y materion allweddol yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Estyn o'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2001-02 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*
(1)+(2)+(3)+(4)+(5)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Yn llinell 2, dileu popeth ar ôl 2001 a gosod y canlynol yn ei le:

'ac yn nodi llythyr cylch gwaith Estyn ar gyfer 2001-02, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2001.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Werthuso'r ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â'r gwendidau a grybwyllwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd;

Cyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r prif faterion yn adroddiad presennol Estyn.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Fynd i'r afael â'r diffygion yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng-Cymraeg, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Fynegi pryder ynglyn â'r cynnydd gwael a wneir gan ddisgyblion yng Nghymru wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, fel a grybwyllir yn yr adroddiad.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

Gynnal ymchwiliad i ffyrdd o leihau'r baich gweinyddol ar ysgolion yn ystod arolygiadau

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000 (LD276) - Dim Copi Electronig Ar Gael

Cliciwch yma i weld y Estyn Remit: 2001-02 (LD727) - Dim Copi Cymraeg ar gael

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 24 Mai, 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**